Arloesi

GWOBRAU ARLOESEDD CYMRU

Gwobrau Arloesedd Cymru yn helpu myfyrwyr dawnus i gael swyddi o'r radd flaenaf

Mae cyn-enillydd Gwobrau Arloesedd Cymru pan oedd yn ei arddegau wedi cael swydd ddelfrydol gyda chwmni technoleg blaenllaw, ar ôl i'w brosiect TGAU dylunio a thechnoleg gipio'r brif wobr yn 2016.

Mae Joe Ringrose, sydd bellach yn 22 oed, wedi dod yn beiriannydd dylunio electroneg llawn amser gyda chwmni Flintec Ltd o Gaerdydd yn ddiweddar, ar ôl cwblhau prentisiaeth pedair blynedd gyda'r cwmni, yn dilyn ei lwyddiant yng Ngwobrau Arloesedd Cymru pan oedd ond yn 16 oed.

Ar ôl darllen y newyddion am ei lwyddiant a dyluniad y cynnyrch yn y papur lleol, cysylltodd Flintec â Joe yn uniongyrchol yn gofyn iddo wneud cais i'w rhaglen brentisiaeth tra oedd yn gweithio yn ei glwb rygbi lleol yn Aberdâr yn 2016. Manteisiodd Joe ar y cyfle a bu ei gais yn llwyddiannus.

Fel rhan o'i waith cwrs TGAU Dylunio a Thechnoleg, dyluniodd a chreodd Joe ddyfais larwm ar gyfer lein ddillad a fyddai'n canu pan fyddai'n dechrau bwrw glaw. Cafodd dyfais Joe a phrosiectau rhai o'i gyd-ddisgyblion o'r dosbarth dylunio a thechnoleg yn Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr yn Aberdâr eu cyflwyno ar gyfer y wobr, a chyrhaeddodd Joe y rhestr fer. Ar ôl arddangosfa o'r 50 cynnyrch gorau yng Ngerddi Sophia yng Nghaerdydd, cyrhaeddodd dyfais Joe y tri uchaf ac enillodd y brif wobr yn y seremoni wobrwyo yn y Senedd ym Mae Caerdydd.

Mae stori a llwyddiant Joe yn dangos pa mor bwysig yw'r Gwobrau Arloesedd, sef menter ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r corff dyfarnu CBAC i annog pobl ifanc sy'n astudio TGAU, Safon Uwch neu mewn colegau addysg bellach i ddefnyddio eu sgiliau a chreu cynnyrch newydd lle mae bylchau yn y farchnad defnyddwyr. Mae'r gwobrau'n helpu i feithrin diwylliant o arloesedd yng Nghymru sy'n hanfodol ar gyfer creu swyddi a thwf i economi Cymru. Mae angen i bobl, busnesau, sefydliadau academaidd, ysbytai, ysgolion, y sector cyhoeddus a Llywodraeth Cymru ei hun, i gyd fod yn fwy arloesol er mwyn ffynnu mewn byd cystadleuol, ac mae'r Gwobrau Arloesedd yn rhan o'r ymgyrch honno.

Wrth siarad am ei brofiad gyda'r Gwobrau Arloesedd, meddai Joe: "Do'n i ddim yn disgwyl cyrraedd yr hanner cant uchaf hyd yn oed, felly roedd e'n brofiad gwych. Fe wnaeth y gydnabyddiaeth yn y cyfryngau ar ôl ennill arwain fi at yr yrfa rydw i ynddi nawr, a dw i wrth fy modd. Do'n i ddim eisiau astudio Lefel A ac ro'n i'n chwilio am brentisiaeth, ond do'n i ddim yn gallu dod o hyd i ddim byd addas ac er gwaetha fy angerdd am ddylunio a thechnoleg, does dim llawer o gyfleoedd yn y sector yna o ran swyddi a dyw e ddim yn ddiwydiant hawdd i fynd i mewn iddo."

Ychwanegodd Joe: "Dw i ddim yn meddwl y bydden i lle ydw i heddiw heb ennill, a dw i mor ddiolchgar am hynny. Roedd e'n brofiad gwych ac fe helpodd fi i ddilyn llwybr gyrfa dw i wir yn dda yn ei wneud ac yn angerddol amdano.

"Mae mwy o fanteision i'r gwobrau nag ennill, mae hyd yn oed cyrraedd y rhestr fer yn gymaint o gamp ac mae'n wych cael hynny ar eich CV. Mae bod yn gysylltiedig â Gwobrau Arloesedd Cymru yn agor llawer o ddrysau i bobl ifanc greadigol a thalentog sydd eisiau dilyn gyrfa yn y diwydiant yma."

Jason Cates, swyddog pwnc Dylunio a Thechnoleg yn CBAC a oedd yn arfer bod yn athro ar Joe yn Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr yn Aberdâr, wnaeth annog Joe i gyflwyno'i waith cwrs 'nôl yn 2016.

Wrth siarad am bwysigrwydd y Gwobrau Arloesedd i bobl ifanc yng Nghymru, yn ogystal â hyrwyddo pwysigrwydd Dylunio a Thechnoleg fel pwnc, meddai: "Mae'r Gwobrau Arloesedd yn gyfrwng hirsefydlog ar gyfer hyrwyddo pwnc Dylunio a Thechnoleg lle mae myfyrwyr yn datblygu sgiliau gan gynnwys CAD a braslunio technegol, yn ogystal â gorgyffwrdd â'r pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg) eraill, yn ystod prosiectau gwaith cwrs TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch.

"Mae Dylunio a Thechnoleg fel pwnc yn greiddiol i annog meddwl arloesol, gan ddechrau ym myd addysg ac, yn y pen draw, cyfrannu at amcanion Llywodraeth Cymru o greu Cymru lewyrchus, Cymru gyfartal a Chymru gydnerth.

"Mae'r gwobrau'n gyfle gwirioneddol i fyfyrwyr ac adrannau Dylunio a Thechnoleg arddangos y gwaith arloesol maen nhw'n ei wneud ac mae prifysgolion, y Llynges Frenhinol a'r Awyrlu, yn ogystal â busnesau technoleg, peirianneg a dylunio mawr yn mynychu rowndiau terfynol y gwobrau fel cyfle i recriwtio'r doniau gorau.

"Rydyn ni wedi cael enillwyr blaenorol o Gymru ar lwyfan y byd, yn gweithio gyda'r gofodwr Tim Peake ac yn teithio i ddigwyddiadau yn Arizona i arddangos gwaith.

"Mae stori Joe, yn arbennig, yn enghraifft wych o bwysigrwydd y gwobrau arloesedd o ran rhoi cyfle i fyfyrwyr ac ysgolion rannu eu gwaith gyda chyflogwyr a busnesau, gan roi hwb i fyfyrwyr ddilyn prentisiaethau a gyrfaoedd medrus o ansawdd uchel yng Nghymru."

Un o saith nod llesiant Cymru yn ôl Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yw Cymru Ffyniannus a'r amcan yw datblygu poblogaeth grefftus sydd wedi'i haddysgu'n dda. Mae Gwobrau CBAC yn ategu'r nodau hynny.

Busnes | Business Cymru | Wales

I gael gwybod mwy am gyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru:

03000 6 03000 | innovation@llyw.cymru
businesswales.gov.wales/cy

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47089
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg